



Teitl y Swydd: Goruchwyliwr Cogydd

Math o gontract: Swydd barhaol, llawn amser (35 awr yr wythnos)

Graddfa: Graddfa 2: £21,239 - £22,058 y flwyddyn

Lleoliad: Gwersyll Llangrannog

Amdanom ni

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru sy'n darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymwneud â chwaraeon, y celfyddydau, gwirfoddoli, hyfforddiant, gwaith dyngarol, rhyngwladol a phreswyl, sy'n eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned a'r byd yn ehangach.

Ers ei sefydlu yn 1922, mae'r mudiad wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i eraill ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang y parchir yng Nghymru. Hyd yma mae dros 4 miliwn o bobl wedi bod yn aelodau o'r Urdd ac eleni mae'r mudiad yn edrych ymlaen at ddathlu ei ganmlwyddiant a chydag nifer o ddigwyddiadau mawr wedi'u cynllunio'n arbennig.

Yr Urdd yw cyflogwr trydydd sector cyfrwng Cymraeg mwyaf yng Nghymru, gyda dros 200 o staff wedi'u lleoli mewn 12 swyddfa ledled Cymru. Roedd ei drosiant blyneddol cyn Covid bron yn £12M, a daeth â gwerth economaidd o £32M i Gymru yn ystod 2019/20.

Y Swydd

Bydd ein hymgeisydd delfrydol gyda chefnidir cadarnhaol o fewn yr alwedigaeth arlwygo gyda chymwysterau perthnasol i gynhyrchu a choginio bwyd cartref o ansawdd dda.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Rhiannon Flynn (Rheolwr Lletygarwch) ar 01239 652 148 neu rhiannon@urdd.org

Anfonwch Ffurflen Gais yr Urdd ar e-bost at swyddi@urdd.org

Mae'r Urdd yn cefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith a gweithgareddau. Rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir a chymuned, ac yn benodol y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein gweithlu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i ymgeiswyr anabl a phobl ddiwylliannol ac ethnig amrywiol.

DISGRIFIAD SWYDD			
Teitl y swydd:	Goruchwyliwr Cogydd	Lleoliad:	Llangrannog
Adran:	Cegin a Llety	Rheolaeth Llinell:	Staff Alrwy
Yn adrodd i:	Rheolwr Lletygarwch	Graddfa:	Graddfa 2

Prif bwrpas y swydd:

Goruchwyllo ac arwain tîm o staff i gyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth arlwy a glanhau Llangrannog
Paratoi a choginio bwyd i'r safonau gofynnol fel y nodir gan y Rheolwr adran a'r Prif Gogydd.
Cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau a safonau sydd wedi eu sefydlu, arwain a dangos esiampl.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau: Materion cyffredinol (Arlwy a Llety):

- Paratoi a choginio bwyd yn ddiogel ac iach i safon uchel, bwyd blasus sydd yn dderbyniol i bob un o'n cwsmeriaid.
- Yn absenoldeb y Prif Gogydd. cadw llygad ar lefelau stoc, archebu bwydydd os mae angen er mwyn cynnal gwasanaeth digonol, ymchwilio ansawdd y nwyddau a gafwyd yn ôl yr anfoneb, a rheoli gwastraff.
- Gweithredu system o reolaeth diogelwch bwyd sydd wedi ei seilio ar egwyddorion Pwyntiau Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon (HACCP) i sicrhau bod y bwyd a gynhyrchir yn y Gwersyll yn ddiogel i'w fwyta - Cadw cofnodion ysgrifenedig.
- Sicrhau darpariaeth ddiogel ac iachus yn unol ag anghenion alergedd / anoddefiad bwyd / dietegol, cefndir diwylliannol neu gredoau crefyddol.
- Sicrhau a chynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra gyda'r cyfarpar a'r amgylchedd cegin yn ogystal â'r ardaloedd paratoi bwyd a'r storfeydd cysylltiedig, a gweithredu Amserlen Glanhau.
- Cynorthwyo i gydlynu rota staffio Adran Arlwy a Llety Llangrannog.
- Arwain tîm o staff arlwy a glanhau sydd ar ddyletswydd, rhoi cyngor, canllawiau a dirprwyo fel y mae angen ar faterion dyddiol.
- Sicrhau bod pob aelod o'r Adran Arlwy a Llety yn bodloni a chydymffurfio â gofynion Hylendid Personol, Diogelwch Bwyd a gofynion Iechyd a Diogelwch – gweithio'n ddiogel.
- Cyfeirio unrhyw broblemau difrifol i Reolwr yr Adran neu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch.
- Cydlynu'r wybodaeth sydd wedi nodi ar yr hysbysfyrddau – trefniadau gwasanaeth, niferoedd gwersyllwyr, anghenion diet arbennig, hysbysiadau iechyd a diogelwch / diogelwch bwyd, rota gwaith ayyb.
- Hysbysu Rheolwr Gwersyll a staff cynnal a chadw am unrhyw beth sydd o'i le neu angen sylw. Os ydynt yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch neu'r cyhoedd, dylid sôn amdanynt yn syth.
- Cynnig argymhellion ar gyfer gwelliannau a datblygiadau
- Dangos esiampl ag ymarferion da i'r staff eraill.
- Rhoi gwybodaeth a chynorthwyo ein cwsmeriaid mewn ffordd gymwynasgar a chyfeillgar.
- Gweithio o fewn terfynau amser

- Ymgymryd ag unrhyw gyfleoedd hyfforddi yn ôl y gofyn, a chymryd cyfrifoldeb am ddysgu a datblygiad personol
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr

Materion Tim Glanhau:

- Yn absenoldeb y Rheolwr Adran, arwain, goruchwyllo a gwirio safonau glanhau a diheintio.
- Sicrhau a chynnal safon uchel o hylendid a glanweithdra gyda'r cyfarpar a'r amgylchedd cegin yn ogystal â'r ardaloedd paratoi bwyd a'r storfeydd cysylltiedig, gweithredu Amserlen Glanhau

Manyldeb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Hanfodol

1. Safon uchel o sgiliau coginio.
2. Profiad o arwain tîm ar ddyletswydd – cynorthwyydd arlwyo
3. Gallu i weithio fel rhan o dîm llwyddiannus.
4. Y gallu i ddilyn cyfarwyddyd a rhoddir gan y Pennaeth a'r Prif Gogydd
5. Dangos gallu i gynllunio llwythi gwaith yn seiliedig ar ddigwyddiadau a gynhelir yn y Ganolfan.
6. Gallu i ddeall anghenion cwsmeriaid ac yn medru arddangos gwerth gofal cwsmeriaid.
7. Ymddangosiad taclus.
8. Agwedd hyblyg a pharod at waith, gyda synnwyr cyffredin i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n codi.
9. Cymhwyster Hylendid Diogelwch Bwyd Lefel 2 neu / a Lefel 3
10. Parodrwydd i fod yn hyblyg ar achlysuron am amserau shift
11. Rhaid bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg

Dymunol

1. Gwybodaeth am Alergedd ag Anoddefiad Bwyd
2. Gwybodaeth am HACCP
3. Gwybodaeth am drefniadau diogelwch ac ymwybyddiaeth am faterion iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf.
4. Profiad blaenorol gweithio mewn amgylchedd cegin, gweithio gyda / arwain tîm ar ddyletswydd

Nodiadau i ymgeiswyr:

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mawrth 2017 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU AC AMODAU (ceir manylion lawn yn Llawlyfr Staff)

Teitl y swydd:	Goruchwyliwr Cogydd
Yn atebol i:	Rheolwr Lletygarwch
Cyflog:	Ar raddfa 2 Strwythur Cyflog yr Urdd: £21,239 (pwynt 3) - £22,058 (pwynt 4) Penodir ar Bwynt 3, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Cytundeb:	Parhaol
Oriau gwaith:	Wythnos waith sylfaenol yw 35 awr yr wythnos. Gweithredir cynllun oriau hyblyg.
Lleoliad:	Llangrannog
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â chynllun pensiwn yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'.
Gwiriad GDG:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
Yswiriant Bywyd:	Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70.